## Partneriaeth Moroedd Glân Cymru

### Crynodeb Gweithredol Partneriaid ar ddiwedd 2020

### Sut mae COVID wedi effeithio ar y gwaith

Mae 2020 wedi bod yn flwyddyn anodd i bob un ohonom yng Nghymru, ac fel partneriaeth mae ein gwaith wedi cael ei effeithio ar sawl lefel wahanol, gan gynnwys gweithgareddau 'ar lawr gwlad' fel glanhau traethau, gwaith maes wedi'i gynllunio a gwaith ymchwil ac ymgysylltu â'r cyhoedd.

Wrth i ni ddod allan o gyfyngiadau cychwynnol y Llywodraeth y llynedd, roedd modd i ddigwyddiadau glanhau traethau gwirfoddol ddechrau unwaith eto. Yn wir, mynychodd y Prif Weinidog ddigwyddiad glanhau traeth yn unol â'r rheolau cadw pellter cymdeithasol gyda'r Gymdeithas Cadwraeth Forol (MCS).

Newidiwyd dulliau gweithio, ac mae dulliau rhithwir a chyfryngau cymdeithasol o godi ymwybyddiaeth wedi disodli dulliau ymgysylltu arferol ein partneriaid megis; ymgyrchoedd #ReturnToOffender Syrffwyr yn erbyn Carthffosiaeth (SAS), #TakeItHome Partneriaeth Aber Afon Hafren, #CaruTraethauCymru Llywodraeth Cymru, #StopTheThread y Gymdeithas Cadwraeth Forol, a #DimSbwrielArÔlyCyfnodClo Cadwch Gymru'n Daclus.

Fodd bynnag, mae rhai prosiectau wedi datblygu yn 2020 gan gynnwys offer pysgota sydd wedi cyrraedd diwedd eu hoes Llywodraeth Cymru a 'phecynnau addysg sbwriel morol' ar gyfer ysgolion uwchradd Cymru a 'Heriau Eco-Ysgolion Adref' sy'n cael eu darparu gan Cadwch Gymru'n Daclus.

Mae prosiectau eraill fel #PostPandemicPollution SAS yn annog ymwelwyr â'r traeth yn Brighton i dynnu lluniau a chodi ymwybyddiaeth o'r diffyg mannau gwaredu ar gyfer sbwriel. Mae Partneriaeth Aber Afon Hafren wedi gwneud cynnydd gyda'i phrosiect 'Arfordir Di-sbwriel' sy'n ymgysylltu â phartneriaid ar ddwy ochr Afon Hafren. Mae Fforwm Arfordir Sir Benfro yn parhau i gyflwyno'r prosiect 'Datblygu Gallu Dalgylchoedd i Wrthsefyll Newidiadau' sy'n canolbwyntio ar fesurau ansawdd dŵr yn Aber Afon Cleddau. Addaswyd ymgyrch 'Rhoi Terfyn ar Gawl Plastig' Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliadau'r Merched - Cymru er mwyn ei chynnal gartref gan ddefnyddio amrywiaeth o dasgau gwahanol.

Mae'r bartneriaeth yn parhau i weithio'n agos ac ymgysylltu â pholisïau sbwriel ehangach, fel gwastraff a phlastig untro. Cynhaliwyd gweithdy yn 2020 yn ymwneud â'r ymgynghoriad ar 'Plastig untro', ac aeth rhai partneriaid ati i ymateb a lleisio eu barn.

Mae pwyntiau trafod allweddol wedi canolbwyntio ar faterion sy'n dod i'r amlwg yn ymwneud â covid-19, gan gynnwys cynnydd yn y lefelau o gyfarpar diogelu personol sy'n cael ei ganfod ar ein traethau a chanllawiau ar sut i lanhau traeth yn ddiogel.

Yn anffodus, canslwyd llawer o'r digwyddiadau glanhau traethau blynyddol sy'n darparu data pwysig ar gyflwr yr amgylchedd morol, gan gynnwys; 'Glanhau Traethau Aber Afon Hafren' Partneriaeth Aber Afon Hafren a 'Gwanwyn Glân Cymru' Cadwch Gymru'n Daclus. Fodd bynnag, cynhaliwyd digwyddiad Glanhau Traethau Prydain y Gymdeithas Cadwraeth Forol yn ddiweddarach yn 2020 ar raddfa lai o lawer.

Mae nifer o bartneriaid yn gweithio i ganfod atebion, ar y cyd ac yn unigol, i nifer o broblemau sbwriel allweddol megis ymgyrch y Gymdeithas Cadwraeth Forol ac ASH Cymru sy'n canolbwyntio ar fonion sigaréts a chadachau gwlyb gan ddefnyddio'r safon 'Stop the flush', a 'Stopio'r Bloc' Dŵr Cymru.

Ar gyfer 2021, mae yna deimlad cadarnhaol y gall rhywfaint o waith barhau ymysg y partneriaid, gan ddatblygu'r addasiadau a wnaed yn 2020.